

Bod yn glwb neu'n gymdeithas

Cynllunio digwyddiadau

Cynnwys

Cynllunio Sesiynau	3
Amcanion y sesiwn	3
Amcanion dysgu	3
Dull	3
Adnoddau sydd eu hangen	3
Amseru a awgrymir	3
Cynnal y sesiwn	5
Rhagarweiniad	5
Tanio syniadau	5
Gwaith grŵp	5
Adborth/Trafodaeth	5
Araith gan y tiwtor	6
Gwaith grŵp	7
Adborth/Trafodaeth	7
Adolygiad/Crynodeb	8

Cynllunio sesiynau

Sgiliau dan sylw
Trefnu a chynllunio
Gweithio

Cynllunio Sesiynau

Amcanion y sesiwn

Nod y sesiwn hon yw codi ymwybyddiaeth o bwysigrwydd cynllunio ymlaen llaw a rhannu cyfrifoldebau wrth gynnal digwyddiad cymdeithasol. Bydd angen i'r hyfforddwr gyd-drefnu â bar yr UM a'r Rheolwr Adloniant (neu gyffelyb) ar gyfer rhan olaf y sesiwn sy'n ymdrin â systemau ac adnoddau.

Amcanion dysgu

Erbyn diwedd y sesiwn hon bydd y rheiny sy'n cymryd rhan yn gallu:

- Nodi beth yw diben digwyddiadau cymdeithasol
- Rhestru pethau a all fynd o chwith gyda digwyddiadau cymdeithasol
- Esbonio manteision cynllunio a rhannu cyfrifoldebau
- Nodi'r adnoddau sydd ar gael

Dull

Bydd y sesiwn hon yn cynnwys cyflwyniad byr i'r grŵp cyfan, lle bydd yr hyfforddwr yn mynd ati i danio syniadau. Bydd y rheiny sy'n cymryd rhan wedyn y gweithio mewn grwpiau bach gyda chyfle i adborthi i'r grŵp yn ei gyfanrwydd. Wedyn ceir trafodaeth fer, ymarferiad mewn grwpiau bach ac adrodd yn ôl, ac yna gorffen gyda thrafodaeth ar yr adnoddau sydd ar gael.

Adnoddau sydd eu hangen

- Siart troi ac offer ysgrifennu
- Taflenni-gwaith

Amseru a awgrymir

Rhagarweiniad	5 munud
Tanio syniadau	5 munud
Gweithio mewn grwpiau bach	10 munud
Adrodd yn ôl	15 munud
Cyflwyniad gan yr hyfforddwr	15 munud
Ymarferiad	20 munud
Adrodd yn ôl	15 munud
Trafodaeth neu rannu taflenni	5 munud
Crynodeb	5 munud

Cyfanswm amser = 1 awr 35 munud

Cynnal y sesiwn

Cynnal y sesiwn

Rhagarweiniad

1. Dechreuwch drwy amlinellu nodau ac amcanion dysgu'r ymarferiad. Esboniwch sut bydd y sesiwn yn cael ei rhedeg, h.y. y dulliau fyddwch chi'n eu defnyddio a pha sgiliau fyddwch chi'n eu datblygu.

Tanio syniadau

2. Taniwch syniadau gyda'r grŵp - gofynnwch iddyn nhw weiddi allan beth maen nhw'n feddwl yw diben cynnal digwyddiadau cymdeithasol i glwb neu gymdeithas. Cofnodwch eu hatebion ar siart troi

Gall awgrymiadau gynnwys:

- Codi arian
- Modd o gyflwyno aelodau newydd
- Nodi achlysur arbennig (e.e. diwedd tymor/blwyddyn)
- Recriwtio aelodau newydd
- Creu awyrgylch tîm
- Annog pobl i fynychu digwyddiad arall (e.e. CCB)

Gwnewch yn sicr eu bod yn cynnwys yr awgrym olaf (os nad ydynt, yna awgrymwch e ac ychwanegwch hwn at y rhestr). Tynnwch eu sylw at yr amrywiaeth o ddibenion y gellir defnyddio digwyddiadau cymdeithasol ar eu cyfer.

3. Symudwch ymlaen at ran nesaf y sesiwn drwy gyhoeddi y byddwch chi'n eu rhannu'n bedwar grŵp. Bydd dau o'r rhain yn trafod y parti/digwyddiad cymdeithasol **gorau** maent wedi ei fynychu, a beth oedd yn dda amdano. Bydd y ddau grŵp arall yn trafod y parti/digwyddiad cymdeithasol **salaf** maent wedi bod ynddo, a beth oedd yn ei wneud mor sâl.

Gwaith grŵp

Rhannwch y grŵp yn bedwar is-grŵp a dwedwch wrthyn nhw os ydyn nhw'n gweithio ar y "*parti/digwyddiad cymdeithasol gorau*" neu'r "*parti/digwyddiad cymdeithasol salaf*". Pwysleiswch y bydd angen i bob grŵp fod â rhywun i adrodd yn ôl ar syniadau'r grŵp. Gwnewch yn sicr fod gan bob grŵp offer ysgrifennu a darn mawr o bapur. Dwedwch wrth bob grŵp ble byddan nhw'n gweithio a bod ganddyn nhw ddeg munud ar gyfer y dasg.

4. Rhowch ychydig funudau i bob grŵp setlo, yna ewch o amgylch y grwpiau er mwyn sicrhau eu bod yn ymgymryd â'r dasg. Cyn diwedd y gwaith grŵp, ewch yn ôl at bob un o'r grwpiau i'w hatgoffa o'r angen i ddewis rhywun i ddarparu adborth ac i sicrhau eu bod yn cadw at yr amser.

Adborth/Trafodaeth

Er mwyn hwyluso trafodaeth, dechreuwch drwy ofyn i un o'r grwpiau "digwyddiad cymdeithasol/parti sâl" i rannu eu syniadau o ran beth oedd yn gwneud y digwyddiad cymaint o fethiant. Wedyn gofynnwch i'r grŵp "sâl" arall i adborthi eu syniadau. Ni ddylai eu cyflwyniadau fod yn hwy nag ychydig o funudau (cadwch y cyfraniadau anffurfiol yn fyr!) Diolchwch i'r ddau grŵp a gosodwch eu darnau papur ar y wal. Gofynnwch i'r ddau grŵp arall os oes ganddyn nhw unrhyw beth maen nhw am ei ychwanegu at y rhestr.

Gall y rhestr gynnwys:

- Rhedwyd allan o gwrw, bwyd a.y.b.
- Cerddoriaeth sâl (torrodd yr offer, thema anghywir a.y.b.)
- Gormod/dim digon o bobl yn y parti
- Doeddwn i ddim yn adnabod *unrhyw un/cymysgedd* anghywir o bobl
- Fi drefnodd y digwyddiad a.... chafodd pethau eu dwyn/torri a.y.b.
- Aeth fy nghariad i ffwrdd gyda rhywun arall a.y.b.

Bod yn glwb neu'n gymdeithas effeithiol - Cynllunio digwyddiadau

- Fe feddwais a chollais fy allweddi a.y.b.

Wedyn gofynnwch i'r ddau grŵp fu'n gweithio ar barti/digwyddiad cymdeithasol da i gyflwyno eu syniadau.

Unwaith eto, ar ôl i'r naill a'r llall gyflwyno eu syniadau, rhwch gyfle i'r grwpiau eraill ychwanegu atynt.

Mae'n debygol na fydd y rhestr hon mor hir, a bydd yn cynnwys pethau sydd i'r gwrthwyneb i'r rhai cyntaf, e.e.

- Digionedd o ddiod/bwyd a.y.b.
- DJ/band ardderchog a.y.b.
- Roedd y parti'n wych, gyda llwyth o hen ffrindiau a chyfle i gyfarfod pobl newydd.
- Dyna ble nes i gyfarfod â fy nghariad presennol

Ar ddiwedd yr adborth, mae angen gwneud rhai pwyntiau pwysig cyn symud ymlaen i ran nesaf y sesiwn.

- a) Gall yr hyn sy'n ymddangos fel llwyddiant ysgubol i rai pobl fod yn brofiad trychinebus i eraill. e.e. parti mewn tŷ lle mae'r rhan fwyaf o'r gwsteion yn cael amser gwych ond mae un o'r preswylwyr yn cael llosgiadau sigarét ar ei ddillad gwely ac mae rhai o'i CDs yn cael eu dwyn.
- b) Mae angen i glybiau a chymdeithasu fod yn eglur ynglŷn â diben a natur y digwyddiad, a sicrhau bod y bobl sy'n ei fynychu'r un mor eglur.
- c) Tra gall digwyddiad llwyddiannus greu cwlwm agosrwydd o fewn clwb neu gymdeithas, gall un sydd wedi'i drefnu'n wael beri i chi golli aelodau.

Araith gan y tiwtor

5. Symudwch ymlaen i ran nesaf y sesiwn a chyflwynwch arraith fer ar gynllunio digwyddiad cymdeithasol. Efallai y byddwch chi am greu a defnyddio sleidiau ar gyfer eich cyflwyniad, neu gallwch baratoi'r pwyntiau allweddol ymlaen llaw ar bapur siart troi.

Gwybodaeth ar gyfer Cyflwyno'r Araith

Dangoswch y canlynol ar siart troi wedi'i baratoi ymlaen llaw:

- Beth?
- Pwy?

- Ble?
- Pryd?
- Faint? □ Sut?
- (Pam?)

Esboniwch mai'r rhain yw'r cwestiynau allweddol sydd angen eu hateb wrth fynd ati i gynllunio digwyddiad.

EWCH DRWY BOB UN YN Y DREFN GANLYNOL:

- Beth? - beth yn hollol yw'r digwyddiad (e.e. taith tafarnau, dadl neu drafodaeth)?
- Pwy? - ar gyfer pwy mae'r digwyddiad (myfyrwyr i gyd neu ddim ond aelodau eich clwb neu gymdeithas)?
- Ble? - ble mae'n cael ei gynnal (ydych chi angen arwyddion neu gyfarwyddiadau)?
- Pryd? - ar ba ddiwrnod mae'r digwyddiad, a phryd mae'n dechrau ac yn gorffen?
- Faint? - faint mae'n costio?
- Sut? - sut ydych chi'n mynd i sicrhau ei fod yn digwydd (h.y. oes gennych chi'r adnoddau - pobl, amser, arian, cyfarpar, i fwrw ymlaen â'ch cynlluniau)?
- (Pam?) - dylech wastad wirio unwaith eto beth yw prif ddiben y digwyddiad (e.e. os mai diben y digwyddiad yw codi arian, fydd hyn yn llwyddo?)

Peidiwch fod ofn diddymu neu ohirio digwyddiad os ydych chi'n credu na fydd yn cyflawni ei ddiben a bod gennych amheuo'n dwys yn ystod camau cynnar y broses gynllunio.

Mae cynllunio'n hanfodol bwysig i lwyddiant unrhyw ddigwyddiad. Dyma rai rheolau allweddol:

- Rhaid i bawb sy'n ymwneud â pharatoi'r digwyddiad gytuno ar y rheolau hyn, gan dderbyn cyfraniadau gan gymaint o bobl â phosib.
- Dylai'r rheolau fod yn eglur a chryno, er mwyn caniatáu rhywfaint o hyblygrwydd.
- Dylai fod rhywun yn cydlynu ac yn sicrhau nad yw problemau'n codi.
- Mae'n ddefnyddiol bod â chynllun gweithredu.

Cynllun Gweithredu:

Mae cynllun gweithredu fel arfer yn cynnwys tair colofn:

Bod yn glwb neu'n gymdeithas effeithiol - Cynllunio digwyddiadau

Pa weithredu? Yn cynnwys pwy? Erbyn pryd?

Mae'r golofn gyntaf yn disgrifio'r gweithgaredd sydd angen ei gyflawni, e.e. cynhyrchu posteri.

Mae'r ail golofn yn disgrifio'r sawl fydd yn gyfrifol am sicrhau bod y gweithgaredd yn cael ei gyflawni.

Mae'r drydedd golofn yn disgrifio'r dyddiad ar gyfer cyflawni'r gweithgaredd (Noder - mae'n ddoeth gosod y dyddiad hwn ychydig ynghynt na'r dyddiad cau pendant er mwyn caniatáu ar gyfer unrhyw broblemau).

Dangoswch yr wybodaeth ganlynol ar siart troi wedi'i baratoi ymlaen llaw:

- *rhannwch y dasg,*
- *rhannwch y cyfrifoldebau!*

Esboniwch fod y baich o gynllunio, trefnu a chynnal digwyddiad yn aml yn disgyn ar nifer fach iawn o bobl. Mae'n bwysig osgoi hyn a cheisio dosbarthu'r gwaith ymysg grŵp trefnu (fel arfer y pwyllgor). Rhannwch y tasgau unigol, yna pennwch y cyfrifoldebau.

Er enghraifft, yn hytrach na gosod 'cyhoeddusrwydd' fel cyfrifoldeb, efallai y byddwch am rannu hyn fel a ganlyn:

- cynhyrchu posteri
- llun-gopiö posteri
- ysgrifennu erthyglau ar gyfer papur-newydd yr UM
- gosod posteri

Gall yr un person fod yn gyfrifol am y tasgau hyn i gyd, ond yn ddelfrydol gellir eu rhannu neu mae'n syniad gofyn i eraill am gymorth (e.e. mae gosod posteri'n dasg sy'n galw am fwy nag un par o ddwylo).

Yn olaf, gallwch gymryd yn ganiatâol fod Deddf Murphy'n effeithio ar bopeth rydych yn ei wneud wrth gynllunio ar gyfer digwyddiad. Yr unig fordd o wrthsefyll Deddf Murphy yw gofyn i chi eich hun "*beth allai fynd o chwith?*" ac yna dadansoddi'r gwahanol bosibiliadau a chanfod ffyrdd o naill ai eu hatal rhag digwydd neu o ymdrin â nhw pe baent yn digwydd.

e.e. mae'r gymdeithas ddadlau'n cynllunio ar gyfer eu digwyddiad mawr i gloi'r flwyddyn. Eu man cychwyn yw dewis dyddiad - maen nhw'n penderfynu ar 8pm, dydd Llun 22 Mehefin. Yn ffodus, mae rhywun yn gwirio i sicrhau nad oes unrhyw ddigwyddiad arall o bwys wedi'i drefnu

ar y dyddiad hwnnw, gan ddarganfod bod Lloegr yn chwarae yng Nghwpan y Byd.

Dyma, felly, yw sail eich cynllun gweithredu.

Gwaith grŵp

6. Esboniwch y byddwch chi'n rhannu'r grŵp yn grwpiau llai ac yn gofyn iddynt fynd ati i gynllunio digwyddiad.
7. Rhannwch y grŵp yn dri, a dosbarthwch daflenni-gwaith 1, 2 a 3. Pwysleiswch y bydd angen i bob grŵp fod â rhywun i adrodd yn ôl ar syniadau'r grŵp. Rhowch ddau ddarn o bapur siart troi ac offer ysgrifennu i bob grŵp, a dwedwch wrthynt ble byddan nhw'n gweithio.
8. Rhowch ychydig funudau i bob grŵp setlo, yna ewch heibio pob un yn ei dro i sicrhau eu bod yn ymgymryd â'r dasg. Cyn diwedd y gwaith grŵp, ewch yn ôl at bob un o'r grwpiau i'w hatgoffa i ddewis rhywun i ddarparu adborth ac i sicrhau eu bod yn cadw at yr amser.

Adborth/Trafodaeth

Er mwyn hwyluso'r drafodaeth, dechreuwch drwy ofyn i'r grŵp sy'n gweithio ar daflen-waith 1 i gyflwyno eu cynllun gweithredu. Diolchwch i'r grŵp, gosodwch eu papur siart troi ar y wal a symudwch ymlaen i'r grŵp sy'n gweithio ar daflen-waith 2. Ar ôl iddyn nhw wneud eu cyflwyniad, diolchwch iddynt, gosodwch eu papur ar y wal a symudwch ymlaen i'r grŵp sy'n gweithio ar daflen-waith 3.

Y pwynt allweddol ddylai ddeillio o'r adborth yw'r ffaith mai gorau po gynted yr ewch chi ati i gynllunio. (Dylai cynllun gweithredu grŵp 1 edrych yn llai prysur nag un grŵp 3). Gwiriwch i weld os yw'r grwpiau wedi cynllunio ar gyfer y canlynol:

- Cyfarfod â'r clwb/cymdeithas arall (ac ydyn nhw'n rhoi cyfrifoldebau iddyn nhw?)
- Gweithgareddau ar ôl y digwyddiad (e.e. bancio arian, adolygu sut aeth pethau).

Ceiswch dynnu pwyntiau cadarnhaol allan o gynlluniau gweithredu pob grŵp.

Ar ôl y sesiwn adborth, naill ai:

Bod yn glwb neu'n gymdeithas effeithiol - Cynllunio digwyddiadau

- Gofynnwch i aelod staff priodol o undeb y myfyrwyr i roi araith 5 munud yn amlinellu pa rai o adnoddau'r undeb sydd ar gael iddyn nhw a'r drefn ar gyfer eu harchebu a thalu amdanynt. Er enghraifft, gallai aelod staff â chyfrifoldeb dros fariâu a/neu adloniant siarad am: brynu gwin, llogi llwyfan/offer sain/disco a DJ a.y.b.
- Ymchwiliwch i'r materion hyn eich hunan a thraddodwch yr araith eich hun.
- Gofynnwch i'r aelod staff i ysgrifennu'r wybodaeth hon i lawr ac argraffwch daflen i'w dosbarthu.

Adolygiad/Crynodeb

Treuliwch bum munud ar y diwedd yn mynd yn ôl dros y prif bwyntiau dysgu; adolygwch amcanion y sesiwn; dosbarthwch a chasglwch y ffurflenni gwerthuso pan fyddant wedi'u cwblhau. Diolchwch i bawb am ddod a gorffennwch y sesiwn.

Neu

TAFLEN WAITH 1

Bod yn glwb neu'n gymdeithas effeithiol - Cynllunio digwyddiadau

Cefndir

Chi yw pwyllgor clwb/cymdeithas sydd â 45 o aelodau. Rydych chi wedi penderfynu cynnal digwyddiad cymdeithasol mawr tua diwedd y tymor, er mwyn i chi orffen y flwyddyn ar nodyn uchel. Rydych wedi cytuno y dylai'r digwyddiad dalu ei ffordd (ond gallwch fforddio colli hyd at hanner can punt) a'ch bod yn bwriadu ei gynnal ar y cyd â chlwb/cymdeithas arall o'r un maint.

Tasg

Penderfynwch pa faterion sy'n codi o'r sefyllfa hon a chynlluniwch sut fyddwch chi'n treulio eich amser rhwng nawr a'r digwyddiad. Cynhyrchwch gynllun gweithredu (gyda dyddiadau ar gyfer cwblhau tasgau) i'w adrodd yn ôl i'r grwpiau eraill.

Heddiw yw dydd Iau, 15 Awst 2014

Rydych yn bwriadu cynnal y digwyddiad ar ddydd Mercher, 2 Rhagfyr 2014.

Bod yn glwb neu'n gymdeithas effeithiol - Cynllunio digwyddiadau

TAFLEN WAITH 2

Cefndir


Chi yw pwyllgor clwb/cymdeithas sydd â 45 o aelodau. Rydych chi wedi penderfynu cynnal digwyddiad cymdeithasol mawr tua diwedd y tymor, er mwyn i chi orffen y flwyddyn ar nodyn uchel. Rydych chi wedi cytuno y dylai'r digwyddiad dalu ei ffordd (ond gallwch fforddio colli hyd at hanner can punt) a'ch bod yn bwriadu ei gynnal ar y cyd â chlwb/cymdeithas arall o'r un maint.

Tasg

Penderfynwch pa faterion sy'n codi o'r sefyllfa hon a chynlluniwch sut fyddwch chi'n treulio eich amser rhwng nawr a'r digwyddiad. Cynyrchwch gynllun gweithredu (gyda dyddiadau cau) i'w adrodd yn ôl i'r grwpiau eraill.

Heddiw yw dydd Mercher, 4 Hydref 2014.

Rydych yn bwriadu cynnal y digwyddiad ar ddydd Mercher, 2 Rhagfyr 2014.



TAFLEN WAITH 3

Cefndir

Chi yw pwyllgor clwb/cymdeithas sydd â 45 o aelodau. Rydych chi wedi penderfynu cynnal digwyddiad cymdeithasol mawr tua diwedd y tymor, er mwyn i chi orffen y flwyddyn ar nodyn uchel. Rydych wedi cytuno y dylai'r digwyddiad dalu ei ffordd (ond gallwch fforddio colli hyd at hanner can punt) a'ch bod yn bwriadu ei gynnal ar y cyd â chlwb/cymdeithas arall o'r un maint.


Tasg

Penderfynwch pa faterion sy'n codi o'r sefyllfa hon a chynlluniwch sut fyddwch chi'n treulio eich amser rhwng nawr a'r digwyddiad. Cynyrchwch gynllun gweithredu (gyda dyddiadau cau) i'w adrodd yn ôl i'r grwpiau eraill.

Heddiw yw dydd Mercher, 20 Tachwedd 2014.

Bod yn glwb neu'n gymdeithas effeithiol - Cynllunio digwyddiadau

Rydych yn bwriadu cynnal y digwyddiad ar ddydd Mercher, 2 Rhagfyr 2014.



Macadam House
275 Gray's Inn Road
Llundain WC1X 8QB
f 0845 5210 262
f 020 7380 0794
e nusuk@nus.org.uk
www.nus.org.uk

ucm

undeb cenedlaethol y **myfyrwyr**